
nationalgrid

DOGFEN 8.1

# Dogfen Lywio

## National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

***Regulation 5(2)(q) of the Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009***



Application Reference EN020015

Medi 2018

# Tabl Cynnwys

CYFLWYNIAD 3
Yr ymgeisydd a throsolwg o Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru 3
Pwrpas y ddogfen hon 4
Eglurhad o'r dull o rifo'r dogfennau 4

TABL O DDOGFENNAU'R CAIS 5
Dogfennaeth 5

CYFROL 1: GWYBODAETH Y CAIS 8
Cyflwyniad 8
Cynnwys y Gyfrol 8

CYFROL 2: GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT 9
Introduction 9
Cynnwys y Gyfrol 9

CYFROL 3: GWYBODAETH AM GAFFAEL GORFODOL 10
Cyflwyniad 10
Cynnwys y Gyfrol 10

CYFROL 4: CYNLLUNIAU 11
Cyflwyniad 11
Cynnwys y Gyfrol 11

CYFROL 5: GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL 14
Cyflwyniad 14
Cynnwys y Gyfrol 14

CYFROL 6: ADRODDIAD YMGYNGHORI 16
Cyflwyniad 16
Cynnwys y Gyfrol 16

CYFROL 7: ADRODDIADAU ERAILL 16
Cyflwyniad 16
Cynnwys y Gyfrol 16

CYFROL 8: CYFIEITHIADAU CYMRAEG 18
Cyflwyniad 18
Cynnwys y Gyfrol 18

CYFROL 9: DOGFENNAU CYFEIRIO 19
Cyflwyniad 19
Cynnwys y Gyfrol 19

# Cyflwyniad

## Yr ymgeisydd a throsolwg o Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Gwaith National Grid yw cysylltu pobl â'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio, boed i gynhesu a goleuo eu cartrefi, neu i gadw ffatrïoedd a swyddfeydd i fynd. Wrth i hen orsafoedd pŵer gau mae angen cysylltu ffynonellau ynni newydd â'n rhwydwaith, fel bod trydan ar gael o hyd ar amrantiad.

Un o'r ffynonellau ynni newydd hyn yw gorsaf bŵer niwclear arfaethedig Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Er mwyn cludo'r ynni o Wylfa Newydd o amgylch y Deyrnas Unedig, mae angen i National Grid ei gysylltu â'r rhwydwaith trydan foltedd uchel.

Nid yw'r rhwydwaith trydan presennol ar Ynys Môn ac yng ngogledd Gwynedd yn ddigon cryf i gludo'r ynni newydd y bwriedir ei gynhyrchu felly mae angen i National Grid adeiladu cysylltiad newydd rhwng Wylfa a Phentir yng Ngwynedd. Mae hyn yn ychwanegol at y llinell uwchben sy'n bodoli'n barod ar Ynys Môn. Enw'r prosiect seilwaith newydd hwn yw Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys:

- Addasiadau i is-orsaf bresennol Wylfa;
- Rhannau newydd o linell uwchben 400 kV rhwng is-orsaf Wylfa ac Adeilad Pen Twnnel (APT) a Chompownd Terfyn Selio Ceblau (CTSC) Braint ar Ynys Môn, gan gynnwys addasiadau i rannau o'r llinell uwchben 400 kV bresennol rhwng Wylfa a Phentir;
- APT / CTSC Braint ar Ynys Môn;
- Twnnel rhwng APT Braint a Thŷ Fodol;
- APT / CTSC Tŷ Fodol yng Ngwynedd;
- Rhan newydd o gysylltiad llinell uwchben rhwng APT / CTSC Tŷ Fodol ac Is-orsaf Pentir;
- Estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- Compowndiau adeiladu dros dro, traciau mynediad, ardaloedd gwaith adeiladu, lledu'r briffordd gyhoeddus mewn rhai mannau a gwaith trydydd parti sydd ei angen er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrwyd uchod.

Mae National Grid wedi paratoi cyfres o gynlluniau ac adroddiadau i egluro'n cynigion. Cyflwynwyd ein cais (sy'n cael ei alw'n gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu) i'r Arolygiaeth Gynllunio i gael ei adolygu yn unol â Deddf Cynllunio 2008.

## Pwrpas y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau a'r cynlluniau sydd yn ein cais. Rhannwyd y dogfennau a'r adroddiadau sy'n ffurfio'r cais yn naw cyfrol sy'n cael eu rhestru yn Nhabl 1.1.

***Tabl 1.1 – Cyfrolau'r Cais***


| Cyfrol | Mae'r gyfrol hon… |
|---|---|
| 1. Gwybodaeth y Cais | yn rhoi manylion am wybodaeth benodol y gofynnir amdani gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cais |
| 2. Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft | yn amlinellu'r pwerau cyfreithiol rydym yn gofyn amdanynt er mwyn adeiladu'r cysylltiad |
| 3. Gwybodaeth am Gaffael Gorfodol | yn rhoi tystiolaeth i ddangos pam y gallem fod angen pwerau cyfreithiol |
| 4. Cynlluniau | yn dangos ble rydym yn bwriadu gwneud y gwaith |
| 5. Gwybodaeth Amgylcheddol | yn cynnwys ein hasesiad o'r effaith bosibl ar yr amgylchedd |
| 6. Adroddiad Ymgynghori | yn egluro sut rydym wedi ymgynghori ynglŷn â'r prosiect cyn gwneud y cais |
| 7. Adroddiadau Eraill | yn cynnwys dogfennau eraill a luniwyd ar gyfer y cais |
| 8. Cyfieithiadau Cymraeg | yn darparu cyfieithiad o'r prif ddogfennau neu grynodeb o'r dogfennau yn Gymraeg |
| 9. Dogfennau Cyfeiriol | yn cynnwys dogfennau o gamau cynharach yn y prosiect y cyfeirir atynt mewn rhannau eraill o'n cais |

I weld y dogfennau ewch i wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/cysylltiad-gogledd-cymru/

## Eglurhad o'r dull o rifo'r dogfennau

Mae'r dogfennau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dilyn fformat rhifo cyson, hynny yw 1.1, 1.2, 4.1, 4.2 ac yn y blaen. Mae Ffigur 1.1 yn dangos sut i ddeall y dull o rifo'r dogfennau.

***Ffigur 1.1 – Rhifo'r Dogfennau***



# Tabl o Ddogfennau'r Cais

## Dogfennaeth

Rhestrir isod y cyfrolau a'r dogfennau a gyflwynwyd fel rhan o gais National Grid am Orchymyn Caniatâd Datblygu (yn unol â Deddf Cynllunio 2008).

### Cyfrol 1: Gwybodaeth y cais

1.1 Navigation Document
1.2 Application Letter and s55 Acceptance of Applications Checklist
1.3 Application Form
1.4 Glossary
1.5 Guide to the Application

### Cyfrol 2: Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft

2.1 Draft Development Consent Order
2.2 Draft Explanatory Memorandum

### Cyfrol 3: Gwybodaeth am Gaffael Gorfodol

3.1 Statement of Reasons
3.2 Funding Statement
3.3 Book of Reference

### Cyfrol 4: Cynlluniau

4.0.1 Overall Location Plan
4.0.2 Master Key Plans
4.1 Land Affected Plans
4.2 Land Plans
4.3 Special Category Land Plans and Crown Land Plans
4.4 Work Plans
4.5 Access and Rights of Way Plans
4.6 Other Environmental Features Plan
4.7 Statutory or Non-Statutory Sites or Features of Nature Conservation, Habitats and Water Bodies Plans
4.8 Habitats and Protected Species, Important Habitats or Other Diversity Features
4.9 CONFIDENTIAL: Habitats of Protected Species: Location of Badger Setts Plans
4.10 Statutory or Non-Statutory Sites or Features of the Historic Environment Plan
4.11 Trees and Hedgerows Potentially Affected Plans
4.12 Traffic Regulation Order Plans
4.13 Design Drawings
4.14 Plans Guidance Document

## Cyfrol 5: Gwybodaeth Amgylcheddol

5.0 Environmental Statement – Non-Technical Summary
5.1 Chapter 1: Introduction
5.2 Chapter 2: Alternatives, Project History and Non-Statutory Consultation
5.3 Chapter 3: Description of the Proposed Development
5.4 Chapter 4: Construction, Operation, Maintenance and Decommissioning
5.5 Chapter 5: EIA Consultation
5.6 Chapter 6: EIA Methodology and Basis of Assessment
5.7 Chapter 7: Landscape Assessment
5.8 Chapter 8: Visual Assessment
5.9 Chapter 9: Ecology and Nature Conservation
5.10 Chapter 10: Historic Environment
5.11 Chapter 11: Geology, Hydrogeology and Ground Conditions
5.12 Chapter 12: Water Quality, Resources and Flood Risk
5.13 Chapter 13: Traffic and Transport
5.14 Chapter 14: Air Quality and Emissions
5.15 Chapter 15: Construction Noise
5.16 Chapter 16: Operational Noise and Vibration
5.17 Chapter 17: Socio-Economics
5.18 Chapter 18: Agriculture
5.19 Chapter 19: Intra-Project Effects
5.20 Chapter 20: Inter-Project Effects
5.21 Chapter 21: Statement of the Combined Effects with the Wider Works
5.22 Summary of Residual Effects
5.23 Habitat Regulations Assessment Report
5.24 Statement of Statutory Nuisance
5.25 Electric and Magnetic Fields Report
5.26 Welsh Language Impact Assessment
5.27 Wellbeing Assessment
5.28 Schedule of Mitigation
5.29 Photomontages
5.30 Arboricultural Assessment

## Cyfrol 6: Adroddiad Ymgynghori

6.1 Consultation Report
6.2 Consultation Report Appendices

## Cyfrol 7: Adroddiadau Eraill

7.1 Need Case
7.2 Strategic Options Report
7.3 History of the Project
7.4 Construction Environmental Management Plan
7.5 Outline Construction Traffic Management Plan
7.6 Public Rights of Way Management Plan
7.7 Biodiversity Mitigation Strategy
7.8 Archaeological Strategy
7.9 Noise and Vibration Management Plan
7.10 Outline Soil Management Plan
7.11 Outline Waste Management Plan
7.12 Outline Materials Management Plan
7.13 Enhancement Strategy
7.14 Planning Statement
7.15 Details of Other Consents and Licences
7.16 Design and Access Statement
7.17 Design Report
7.18 Back Check of Wylfa-Pentir Design Decisions
7.19 Design Guide

## Cyfrol 8: Cyfieithiadau Cymraeg

8.1 Dogfen Lywio
8.2 Memorandwm Esboniadol Drafft
8.3 Datganiad o Resymau
8.4 Datganiad Cyllido
8.5 Dogfen Ganllawiau'r Cynlluniau
8.6 Datganiad Amgylcheddol – Crynodeb Annhechnegol
8.7 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
8.8 Crynodeb o'r Adroddiad Ymgynghori
8.9 Crynodeb o'r Datganiad Cynllunio
8.10 Crynodeb o'r Adroddiad Dylunio
8.11 Hanes y Prosiect

## Cyfrol 9: Dogfennau Cyfeiriol

9.1 Wylfa to Pentir Overhead Electricity Transmission Line – Route Corridor Identification Report (Oct 2012)9.2 Wylfa to Pentir Preferred Route Corridor Selection Report (Oct 2015)
9.3 Wylfa to Pentir Route Options Report (Oct 2015)
9.4 Preferred Route Option Selection Report Wylfa to the Menai Crossing Area (Sep 2016)
9.5 Draft Route Alignment Report Wylfa to the Menai Crossing Area (Sep 2016)
9.6 Menai Strait Crossing Report (Sep 2016)
9.7 Historic Need Case (2012, 2015 and 2016)
9.8 Historic Strategic Options Report (2012, 2015 and 2016)

# Cyfrol 1: Gwybodaeth y Cais

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn rhoi manylion am wybodaeth y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn amdani wrth gyflwyno cais ac yn egluro sut y gallwch lywio eich ffordd o gwmpas y dogfennau.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 1.1 Navigation Document (this document) – yn rhoi disgrifiad o'r holl ddogfennau ac adroddiadau sydd yn y cais. Dogfen 8.1 yw'r fersiwn Gymraeg ohoni.
- 1.2 Application Letter and s55 Acceptance of Applications Checklist – llythyr yn egluro beth yw'r cais. Mae rhestr wirio Adran 55 yn mynd gyda'r llythyr hwn.
- 1.3 Application Form – yn darparu'r ffurflen gais ffurfiol ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac yn rhestru'r dogfennau sydd wedi cael eu cynnwys.
- 1.4 Glossary – yn egluro'r termau technegol a ddefnyddir yn yr holl ddogfennau.
- 1.5 Guide to the Application – rhestr o ddogfennau cais National Grid am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru sy'n tynnu sylw at y fersiynau diweddaraf.

# Cyfrol 2: Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft

## Cyflwyniad

Er mwyn adeiladu'r cysylltiad arfaethedig, mae angen i National Grid gael caniatâd gan y Llywodraeth. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu'r pwerau cyfreithiol y mae National Grid yn gofyn amdanynt.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 2.1 Draft Development Consent Order – yn cynnwys rhestr o'r holl waith y bwriadwn ei wneud a beth y byddwn yn ei wneud os byddwn yn cael caniatâd.
- 2.2 Draft Explanatory Memorandum – yn egluro'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft. Gweler Dogfen 8.2 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.

# Cyfrol 3: Gwybodaeth am Gaffael Gorfodol

## Cyflwyniad

Er mwyn adeiladu'r cysylltiad arfaethedig, mae'n bosibl y bydd angen i National Grid ddefnyddio pwerau cyfreithiol caffael gorfodol. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu'r pwerau cyfreithiol y mae'n gofyn amdanynt.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 3.1 Statement of Reasons – yn egluro pam y gallai National Grid fod angen pwerau cyfreithiol i brynu tir yn orfodol er mwyn adeiladu'r cysylltiad. Gweler Dogfen 8.3 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.
- 3.2 Funding Statement – yn egluro sut y bwriedir ariannu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw gaffael drwy brynu gorfodol. Gweler Dogfen 8.4 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.
- 3.3 Book of Reference – yn nodi pawb sydd â budd cyfreithiol yn y tir sy'n cael ei effeithio gan gynigion National Grid. Dylid darllen y Llyfr Cyfeirio ar y cyd â'r Cynlluniau Tir (Cyfrol 4, Dogfen 4.2) sy'n nodi lleoliad pob llain o dir.

# Cyfrol 4: Cynlluniau

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn cynnwys y cynlluniau sy'n dangos ble a sut mae National Grid yn bwriadu cyflawni'r gwaith. Rhannwyd y cynlluniau'n adrannau daearyddol a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r cynllun rydych eisiau ei weld. Amlinellir y gwahanol adrannau isod:

Adran A – O'r Wylfa i Ros-goch

Adran B – O Ros-goch i Landyfrydog

Adran C – O Landyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn

Adran D – O'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Geint

Adran E – O Geint i Afon Braint

Adran F – O Afon Braint i Bentir

Mae map o'r ardaloedd daearyddol i'w weld ar dudalen 13. Mae pob adran yn cynnwys cyfres o fapiau (neu daflenni). Mae nifer y taflenni mewn adran yn dibynnu ar ei maint daearyddol ac a yw'r adran yn cael ei heffeithio gan y gyfres honno o gynlluniau. Mae cynllun lleoli sy'n dangos lleoliad pob adran, a'r taflenni o'i mewn, wedi'i gynnwys ym mhob cyfres o gynlluniau. Dangosir y symbolau sy'n cael eu defnyddio ar bob math o gynllun yn yr allwedd ac maent hefyd yn cael eu dangos yn Nogfen Ganllawiau'r Cynlluniau (Cyfrol 4, Dogfen 4.14).

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol


- 4.0.1 Overall Location Plan – y llwybr arfaethedig rhwng Wylfa a Phentir yn ei gyfanrwydd.
- 4.0.2 Master Key Plans – yn dangos yr adrannau daearyddol ac yn eich helpu i ddod o hyd i'r cynllun rydych eisiau ei weld.
- 4.1 Land Affected Plans – yn dangos ffiniau'r holl dir sy'n cael ei effeithio yn yr ardal lle mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad.
- 4.2 Lands Plans – yn dangos y ffin y mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad o'i mewn a'r pwerau neu'r hawliau i'w defnyddio dros y tir.
- 4.3 Special Category Land Plans and Crown Land Plans – yn dangos y ffin y mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad o'i mewn ac unrhyw dir categori arbennig, megis tir comin, Tir y Goron neu dir sy'n eiddo i gyrff arbennig, er enghraifft yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Nid oes gan bob rhan o'r llwybr arfaethedig gynlluniau Tir Categori Arbennig a Thir y Goron.
- 4.4 Works Plans – yn dangos terfynau arfaethedig Gorchymyn Caniatâd Datblygu National Grid, llwybr y datblygiad ym mhob adran a'r pellter bob ochr i'r llwybr arfaethedig lle gallai gwaith gael ei wneud, sy'n cael ei alw'n 'derfynau'r gwyriad'.
- 4.5 Access and Rights of Way Plans – yn dangos unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed, llwybrau ceffylau a hawliau mordwyo a mynediad i'r rhain.
- 4.6 Other Environmental Features Plans
- 4.7 Statutory or Non-Statutory Site or Features of Nature Conservation, Habitats and Water Bodies Plans – yn dangos lleoliadau sydd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, gan gynnwys ardaloedd sy'n bwysig o safbwynt gwarchod natur neu sy'n gynefinoedd gwarchodedig.
- 4.8 Habitats of Protected Species, Important Habitats or Other Diversity Features – yn dangos lleoliadau safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau hanesyddol ac agweddau hanesyddol eraill ar y dirwedd.

- 4.9 CONFIDENTIAL: Habitats of Protected Species: Location of Badger Setts Plans – dangos lleoliad rhywogaethau a warchodir a chartrefi moch daear. Oherwydd statws cyfreithiol rhywogaethau a warchodir a chartrefi moch daear, ni fydd y cynlluniau hyn ar gael i'r cyhoedd.
- 4.10 Statutory or Non-Statutory Sites or Features of the Historic Environment Plan – yn dangos lleoliadau safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau hanesyddol ac agweddau hanesyddol eraill ar y dirwedd.
- 4.11 Trees and Hedgerows Potentially Affected Plans – yn dangos coed a gwrychoedd y gallai gwaith National Grid effeithio arnynt wrth adeiladu'r cysylltiad arfaethedig.
- 4.12 Traffic Regulation Order Plans – yn dangos y trefniadau rheoli traffig arfaethedig y byddai National Grid yn eu rhoi ar waith yn ystod y gwaith o adeiladu'r cysylltiad arfaethedig.
- 4.13 Design Drawings – yn rhoi manylion am faint ac uchder y seilwaith newydd arfaethedig, gan gynnwys llinellau uwchben, yr is-orsaf a chompowndiau terfyn selio ceblau.
- 4.14 Plans Guidance document – mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth mae'r cynlluniau'n ei ddangos ac yn cynnwys cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg o'r allweddau a ddefnyddiwyd. Gweler Dogfen 8.5 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.

F

THE NATIONAL GRID (NORTH WALES CONNECTION PROJECT) ORDER
MASTER KEY TO SECTION IDENTIFICATION PLAN
REGULATION 5(2)(o)
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL AND GWYNEDD COUNCIL

GORCHYMYN NATIONAL GRID (PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU)
PRIF ALLWEDD I'R CYNLLUN ADNABOD ADRANNAU
RHEOLIAD 5(2)(o)
CYNGOR SIR YNYS MÔN A CHYNGOR GWYNEDD




A1

COPYRIGHT: NOT TO BE REPRODUCED WITHOUT THE WRITTEN PERMISSION OF NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION Plc

# Cyfrol 5: Gwybodaeth Amgylcheddol

## Cyflwyniad

Mae National Grid yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i adeiladu offer a'r angen i ystyried yr amgylchedd.

Er mwyn deall y cydbwysedd hwn mae wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i'w alluogi i ystyried effeithiau tebygol y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys canlyniadau'r asesiad.

Mae'r gyfrol hon hefyd yn cynnwys nifer o adroddiadau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain (5.22 i 5.30). Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 5.0 Environmental Statement – Crynodeb Annhechnegol. Gweler dogfen 8.6 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.
- 5.1 Chapter 1: Introduction – cyflwyniad i'r Datganiad Amgylcheddol.
- 5.2 Chapter 2: Alternatives, Project History and Non-Statutory Consultation – manylion yr opsiynau cysylltu ar gyfer y prosiect, yr opsiynau cysylltu a ystyriwyd, llwybrau a ystyriwyd a newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r dyluniad.
- 5.3 Chapter 3: Description of the Proposed Development – y disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig y cyfeirir ato drwy gydol y Datganiad Amgylcheddol.
- 5.4 Chapter 4: Construction, Operation, Maintenance and Decommissioning – yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu, sut y byddai'n gweithredu, unrhyw waith cynnal a chadw rheolaidd a allai fod ei angen, ac os oes angen, sut y byddai'r cysylltiad yn cael ei ddatgomisiynu pe na bai ei angen mwyach.
- 5.5 Chapter 5: EIA Consultation – yn crynhoi'r ymgynghori, statudol ac anstatudol, a wnaethpwyd fel sail i'r Datblygiad Arfaethedig, ac yn rhoi disgrifiad manylach o ymgynghori sydd wedi bod yn berthnasol i broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.
- 5.6 Chapter 6: EIA Methodology and Basis of Assessment – yn amlinellu'r dull gweithredu a'r fethodoleg a fabwysiadwyd wrth baratoi'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.
- 5.7 Chapter 7: Landscape Assessment – asesiad o'r nodweddion sy'n ffurfio'r dirwedd.
- 5.8 Chapter 8: Visual Assessment – asesiad o olygfannau pwysig.
- 5.9 Chapter 9: Ecology & Nature Conservation – asesiad o ecoleg ac ardaloedd sy'n cael eu diogelu'n arbennig er mwyn gwarchod natur.
- 5.10 Chapter 10: Historic Environment – asesiad o olion archaeolegol, adeiladau hanesyddol ac agweddau eraill ar y dirwedd.
- 5.11 Chapter 11: Geology, Hydrogeology and Ground Conditions – asesiad o briddoedd, daeareg a thir halogedig.
- 5.12 Chapter 12: Water Quality, Resources and Flood Risk – asesiad o berygl llifogydd ac ansawdd dŵr.
- 5.13 Chapter 13: Traffic and Transport – asesiad o'r rhwydwaith trafnidiaeth, megis ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd, rheilffyrdd a llwybrau beicio.
- 5.14 Chapter 14: Air Quality – asesiad o ansawdd yr aer, er enghraifft llwch o waith cloddio neu nwyon o bibellau mwg cerbydau yn ystod y gwaith adeiladu.
- 5.15 Chapter 15: Construction Noise and Vibration – asesiad o lefelau sŵn wrth i ni adeiladu'r llinell uwchben.
- 5.16 Chapter 16: Operational Noise – asesiad o lefelau sŵn pan fydd y llinell uwchben newydd yn weithredol.
- 5.17 Chapter 17: Socio-economics – asesiad o nodweddion economaidd-gymdeithasol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.

- 5.18 Chapter 18: Agriculture – yn cyflwyno gwybodaeth am yr effeithiau posibl a allai ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig yng nghyswllt defnydd tir amaethyddol a phriddoedd.
- 5.19 Chapter 19: Intra-Project Effects – asesiad o'r effeithiau cronnus o fewn y prosiect a allai ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig. Gallai'r effeithiau hyn ddigwydd lle mae derbynnydd unigol yn cael ei effeithio gan fwy nag un math o effaith sy'n deillio o wahanol agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.20 Chapter 20: Inter-Project Effects – asesiad o'r effeithiau cronnus rhwng prosiectau a allai ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig. Gallai'r effeithiau hyn ddigwydd pan mae dau neu ragor o ddatblygiadau sy'n cael eu cynllunio yn cael effaith ar yr un derbynnydd gan arwain at effaith gyffredinol sy'n fwy arwyddocaol.
- 5.21 Chapter 21: Statement of the Combined Effects with the Wider Works – yn cyflwyno asesiad o unrhyw effeithiau cyfunol a allai ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig a'r gwaith sydd ei angen er mwyn cryfhau rhwydwaith trydan presennol National Grid rhwng Pentir a Thrawsfynydd.
- 5.22 Summary of Residual Effects – yn cyflwyno crynodeb o'r effeithiau amgylcheddol gweddilliol sy'n debygol o ddeillio o weithredu'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.23 Habitat Regulations Assessment Report – wedi'i gynhyrchu fel sail i broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.24 Statement of Statutory Nuisance – yn disgrifio'r niwsansau perthnasol, sy'n cael eu diffinio yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig.
- 5.25 Electric and Magnetic Fields Report – asesiad o feysydd trydanol a magnetig a fydd yn cael eu creu gan y cysylltiad newydd.
- 5.26 Welsh Language Impact Assessment – – asesiad o'r effeithiau posibl y gallai'r Prosiect a'r gwaith adeiladu ei gael ar yr iaith Gymraeg yn ardal y Prosiect. Gweler dogfen 8.7 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.
- 5.27 Wellbeing Assessment – yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau o'r Datganiad Amgylcheddol a dogfennau eraill y Gorchymyn Caniatâd Datblygu mewn cysylltiad â'r gwahanol agweddau ar lesiant sydd wedi cael eu diffinio drwy ddefnyddio'r effeithiau posibl a nodwyd gan randdeiliaid mewn gweithdy llesiant a Nodau Llesiant Cymru.
- 5.28 Schedule of Mitigation – yn rhoi crynodeb o'r camau a gynigir er mwyn lliniaru effeithiau amgylcheddol posibl a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n debygol o ddigwydd o ganlyniad i adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac yn nodi pa rannau o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu sy'n sicrhau camau lliniaru.
- 5.29 Photomontages – Mae montages ffotograffig yn dangos y Datblygiad Arfaethedig yng nghyd-destun y llinell sylfaen, gan gynnwys lliw, gwead a golau. Maent yn cael eu cynhyrchu â chyfrifiadur. Amcan montage ffotograffig yw efelychu'r newidiadau gweledol tebygol a fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig a chynhyrchu delweddau wedi'u hargraffu sy'n ddigon mawr a manwl i gyfateb i'r persbectif yn yr un olygfa ag yn y maes. Nid yw montages ffotograffig yn sail i'r asesiad, ond maent yn ddarluniadol.
- 5.30 Arboricultural Assessment – yn cyflwyno gwybodaeth am yr effeithiau ar goedyddiaeth a allai ddigwydd o ganlyniad i adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac yn nodi camau lliniaru sydd eu hangen er mwyn atal, lleihau neu wrthbwyso unrhyw effeithiau anffafriol sylweddol y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o'u hachosi.

# Cyfrol 6: Adroddiad Ymgynghori

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori ar gyfer y prosiect.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 6.1 Consultation Report – yn darparu adroddiad am y broses o ymgynghori ynglŷn â'r Prosiect cyn gwneud cais, gan gynnwys ymgynghoriad statudol dan adrannau 42, 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion perthnasol a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyn cais, a sut y rhoddwyd sylw i'r rhain yn y cynigion terfynol. Oherwydd maint y ddogfen mae wedi'i rhannu'n dair rhan. Mae crynodeb Cymraeg o'r adroddiad hwn i'w weld yn Nogfen 8.8.
- 6.2 Consultation Report Appendices – dogfennau ategol ar gyfer yr Adroddiad Ymgynghori.

# Cyfrol 7: Dogfennau Eraill

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn cynnwys dogfennau eraill y mae National Grid wedi'u cynhyrchu i fynd gyda'r cais.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 7.1 Need case – yn egluro pam y mae angen y Prosiect.
- 7.2 Strategic Options Report – yn egluro'r broses o ddatblygu ac asesu opsiynau strategol a arweiniodd at gynigion National Grid.
- 7.3 History of the Project – adroddiad am y Prosiect o'r dechrau i'r diwedd. Gweler Dogfen 8.11 am fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.
- 7.4 Construction Environmental Management Plan – yn disgrifio sut y bydd yr amgylchedd lleol yn cael ei reoli yn ystod y gwaith adeiladu, gan gynnwys cynigion ar gyfer unrhyw waith adfer ar ôl cwblhau'r prosiect.
- 7.5 Outline Construction Traffic Management Plan – yn nodi sut y bydd National Grid yn rheoli traffig adeiladu drwy gydol y broses adeiladu.
- 7.6 Public Rights of Way Management Plan – yn amlinellu sut y bydd unrhyw effeithiau ar hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu rheoli yn ystod y gwaith adeiladu.
- 7.7 Biodiversity Mitigation Strategy – yn amlinellu sut y bydd unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth yn cael eu lleihau neu eu rheoli yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl iddo ddod i ben.
- 7.8 Archaeological Strategy – yn amlinellu sut y bydd llawer o effeithiau ar safleoedd archaeolegol yn cael eu lleihau neu eu rheoli yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl iddo ddod i ben.

- 7.9 Noise and Vibration Management Plan – yn amlinellu sut bydd unrhyw sŵn neu ddirgrynu sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu yn cael ei reoli.
- 7.10 Outline Soil Management Plan – yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer camau lliniaru sy'n cael eu hystyried yn enghreifftiau o ymarfer da cyffredinol wrth drin, storio ac adfer pridd.
- 7.11 Outline Waste Management Plan – yn egluro sut y bydd National Grid yn rheoli'r deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r cysylltiad newydd, gan gynnwys llinell uwchben, twnnel a ffyrdd mynediad.
- 7.12 Outline Materials Management Plan – yn egluro sut y bydd National Grid yn rheoli'r deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r cysylltiad newydd, gan gynnwys llinell uwchben, twnnel a ffyrdd mynediad.
- 7.13 Enhancement Strategy – yn amlinellu'r cyfleoedd i wella a nodwyd ac sy'n cael eu cynnig.
- 7.14 Planning Statement – yn amlinellu'r polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol i'r cais. Mae crynodeb Cymraeg o'r adroddiad hwn i'w weld yn Nogfen 8.9.
- 7.15 Details of other Consents and Licences – lyn rhestru ac yn rhoi disgrifiad byr o unrhyw ganiatadau a thrwyddedau eraill y gallai fod eu hangen er mwyn adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig (gan gynnwys y rhai hynny y gwnaethpwyd cais amdanynt yn barod).
- 7.16 Design and Access Statement – yn egluro sut y mae dyluniad y prosiect yn addas o ystyried ei leoliad ac yn disgrifio sut y bydd y gwaith adeiladu ac ati yn cael ei wneud yn hygyrch (neu ddim).
- 7.17 Design Report – yn rhoi crynodeb o esblygiad dyluniad Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru gan gynnwys dewis yr Opsiwn Strategol, dewis Coridor Llwybr a dewis Opsiwn ar gyfer y Llwybr. Mae hefyd yn rhoi crynodeb fesul adran o'r Datblygiad Arfaethedig ac yn amlinellu'r sail resymegol dros newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud i'r dyluniad rhwng y dyluniad yr ymgynghorwyd arno yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn 2016 a dyluniad y Datblygiad Arfaethedig. Mae crynodeb Cymraeg o'r adroddiad hwn i'w weld yn Nogfen 8.10.
- 7.18 Back Check of Wylfa-Pentir Design Decisions – yn crynhoi'r gwaith a wnaethpwyd er mwyn adolygu a chadarnhau'r prif benderfyniadau dylunio a wnaethpwyd yng nghamau cynharach Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, gan gynnwys: dewis coridorau ac aliniadau'r llwybr; lleoliad safleoedd parhaol; a dewisiadau technoleg.
- 7.19 Design Guide – yn nodi ystyriaethau dylunio ac egwyddorion dylunio allweddol a fyddai'n cael eu cymhwyso i ddyluniad terfynol yr Adeiladau Pen Twnnel a'r compowndiau cysylltiedig. Mae hefyd yn crynhoi'r sail resymegol dros ddyluniad yr estyniad i Is-orsaf Pentir.

# Cyfrol 8: Cyfieithiadau Cymraeg

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn cynnwys dogfennau y mae National Grid wedi'u cyfieithu i fynd gyda'r cais.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 8.1 Dogfen Lywio – yn rhoi disgrifiad o'r holl ddogfennau a'r adroddiadau sydd yn y cais. Gweler Dogfen 1.1 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.2 Memorandwm Esboniadol Drafft – yn egluro'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft. Gweler Dogfen 2.2 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.3 Datganiad o Resymau – yn egluro pam y gallai National Grid fod angen pwerau cyfreithiol i brynu tir yn orfodol er mwyn adeiladu'r cysylltiad. Gweler Dogfen 3.1 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.4 Datganiad Cyllido – yn egluro sut y bwriedir cyllido'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw gaffael drwy brynu gorfodol. Gweler Dogfen 3.2 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.5 Dogfen Ganllawiau'r Cynlluniau – mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth mae'r cynlluniau'n ei ddangos ac yn cynnwys cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg o'r allweddau a ddefnyddiwyd. Gweler Dogfen 4.14 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.6 Datganiad Amgylcheddol – Crynodeb Annhechnegol. Gweler Dogfen 5.0 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.7 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg – asesiad o'r effeithiau posibl y gallai'r Prosiect a'r gwaith adeiladu ei gael ar yr iaith Gymraeg yn ardal y Prosiect. Gweler Dogfen 5.27 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.
- 8.8 Crynodeb o'r Adroddiad Ymgynghori – Gweler Dogfen 6.1 am yr Adroddiad Ymgynghori (Saesneg yn unig).
- 8.9 Crynodeb o'r Datganiad Cynllunio – yn cyflwyno crynodeb byr sy'n amlinellu prif bwyntiau'r Datganiad Cynllunio. Gweler Dogfen 7.14 am y Datganiad Cynllunio (Saesneg yn unig).
- 8.10 Crynodeb o'r Adroddiad Dylunio – crynodeb byr sy'n amlinellu prif bwyntiau'r Adroddiad Dylunio. Gweler Dogfen 7.17 am yr Adroddiad Dylunio (Saesneg yn unig).
- 8.11 Hanes y Prosiect – adroddiad am y Prosiect o'r dechrau i'r diwedd. Gweler Dogfen 7.3 am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

# Cyfrol 9: Dogfennau Cyfeiriol

## Cyflwyniad

Mae'r gyfrol hon yn cynnwys dogfennau o gamau cynharach y prosiect y cyfeirir atynt mewn rhannau eraill o'n cais.

Mae'r dogfennau sydd yn y gyfrol hon wedi'u rhestru isod.

## Cynnwys y Gyfrol

- 9.1 Wylfa to Pentir Overhead Electricity Transmission Line – Adroddiad ar Nodi Coridor Llwybr (Hydref 2012) – yn archwilio ac yn nodi'r coridorau llwybr uwchben posibl cychwynnol rhwng Wylfa a Phentir.
- 9.2 Wylfa to Pentir Preferred Route Corridor Selection Report (Oct 2015) – yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gwnaethom benderfynu ar y coridor llwybr.
- 9.3 Wylfa to Pentir Route Options Report (Oct 2015) – yn egluro sut rydym wedi nodi'r opsiynau llwybr ar gyfer y cysylltiad newydd.
- 9.4 Preferred Route Option Selection Report Wylfa to the Menai Crossing Area (Sep 2016) – yn egluro'r rhesymau dros ddewis opsiwn y llwybr a ffefrir rhwng Wylfa a man croesi Afon Menai.
- 9.5 Draft Route Alignment Report Wylfa to the Menai Crossing Area (Sep 2016) – yn egluro'r sail resymegol dros ddyluniad y llinell uwchben newydd arfaethedig rhwng Wylfa a man croesi Afon Menai.
- 9.6 Menai Strait Crossing Report (Sep 2016) – yn egluro'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer croesi Afon Menai, yr asesiad a wnaethpwyd o'r opsiynau a sut y dewiswyd yr opsiwn a ffefrir.
- 9.7 Historic Need Case (2012, 2015 and 2016) – copïau o Achosion Angen blaenorol a gynhyrchwyd ar gyfer y prosiect sy'n egluro pam y mae angen y Prosiect.
- 9.8 Historic Strategic Options Report (2012, 2015 and 2016 update only) – copïau o Adroddiadau Opsiynau Strategol a gynhyrchwyd ar gyfer y prosiect sy'n egluro'r broses o ddatblygu ac asesu opsiynau strategol.

## Cysylltwch â ni:

Gallwch gael rhagor o wybodaeth mewn sawl ffordd:

Ewch i wefan y prosiect yn
www.cysylltiadgogleddcymru.com

Anfonwch neges ebost i:
nationalgrid@cysylltiadgogleddcymru.com

Ysgrifennwch i'n cyfeiriad rhadbost:
FREEPOST NATIONAL GRID NW CONNECTION

Ffoniwch ein rhif rhadffôn:
0800 990 3567 9am-5pm Llun-Gwener
neu gadewch neges y tu allan i'r oriau hynny

Cofrestrwch i gael negeseuon yn syth
i'ch ffôn: Tecstiwch NGCYM i 80800

Dilynwch ni ar Twitter i gael y
newyddion a'r lluniau diweddaraf:
@NGNorthWales